Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

GLENN, THOMAS ALLEN (1864 - 1948), milwr, hanesydd, achyddwr, a hynafiaethydd

Enw: Thomas Allen Glenn
Dyddiad geni: 1864
Dyddiad marw: 1948
Priod: Meenie Mary Glenn (née Tothill)
Rhiant: Sarah Catherine Glenn
Rhiant: Edward Glenn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: milwr, hanesydd, achyddwr, a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Milwrol; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 8 Ionawr 1864, yn Pennsylvania, mab Edward a Sarah Catherine Glenn. (Serch ei eni yn yr America yr oedd yn ddinesydd Prydeinig).

Bu'n gwasanaethu ym myddinoedd America a Phrydain. Erbyn 1903 yr oedd yn Lieutenant-Colonel ym myddin America, eithr ymddiswyddodd yn 1905 a dyfod i Gymru i fyw. Bu'n swyddog yn Rhyfel Mawr 1914-18; bu hefyd yn swyddog yn yr ' Home Guard ' yn Rhyfel 1939-45.

Fel awdur y mae iddo ddau gyfnod - yn America ac ym Mhrydain. Yn ystod y ddau gyfnod yr oedd ei weithiau ar hen deuluoedd yn bwysig. Wedi iddo ddyfod i fyw yng Nghymru (ym Mhrestatyn, Meliden, Rhyl, ac, yn ddiweddaf oll, yn Abergele) rhoddodd lawer o sylw i hanes lleol a hynafiaethau; yr oedd yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethau Cymru ac ysgrifennai o bryd i bryd i *Arch. Camb*. Yr oedd yn achyddwr gofalus a chan fod ganddo hefyd dalent arlunydd y mae ei waith yn y maes arbennig hwn yn bur werthfawr; yr oedd hefyd yn chwilotwr dyfal ac yn gopïwr gofalus.

Priododd, yn 1904, Meenie Mary, merch Robert H. a Jessie Tothill, a bu iddynt ddwy ferch. Bu farw yn Abergele, 30 Ionawr 1948; bu ei weddw farw ar 4 Medi 1949.

Heblaw erthyglau yn *Archæologia Cambrensis* a chyhoeddiadau cyffelyb (rhai ohonynt yn cael eu cyhoeddi yn America), yr oedd Glenn yn awdur llu o lyfrau a llyfrynnau. Yn eu plith y mae *Merion in the Welsh Tract ... (Pennsylvania)* (Norristown, 1896); *Some colonial mansions and those who lived in them* (Philadelphia; 1st series 1899, 2nd series 1900); *Welsh Founders of Pennsylvania*, 2 vols., (Oxford, 1911); *Newmarket Notes (Prestatyn Hundred, Flintshire)*, Parts 1 and 2 (Prestatyn 1911, 1912); *Northern Flintshire, historical, genealogical and archaeological*, Vol. 1, Parts 1-3, (Horncastle, 1913); (gydag Arglwydd Mostyn), *History of the Family of Mostyn*, (1926); *The Family of Griffith of Garn and Plasnewydd in the County of Denbigh*, (London, 1934).

Y mae'r rhan fwyaf o'i lawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

NLW MSS 763-4, 1112-14, 4417, 6341, 6737, 6990, 14015, etc.

adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734415

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, W. Ll., (1970). GLENN, THOMAS ALLEN (1864 - 1948), milwr, hanesydd, achyddwr, a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-GLEN-ALL-1864

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government